# Gwirfoddolwr Gofal Casgliadau
# Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

**Pwrpas y rôl:** cynorthwyo'r tîm Cadwraeth Ataliol gyda thasgau gofal casgliadau.

**Prif dasgau**
- Defnyddio dulliau cadwraethol i lanhau gwrthrychau sy'n cael eu harddangos.
- Gwaith tacluso a glanhau yn y storfeydd (gan gynnwys casglu llwch a hwfro).
- Cynorthwyo â gwaith cynnal a chadw'r microamgylcheddau.
- Cynorthwyo â gwaith rheoli plâu integredig.

**Lleoliad:** Orielau, storfeydd casgliadau, swyddfeydd **Adran:** Cadwraeth

**Oedran:** 18+ **Dyddiad cau:** Dydd Iau, 21 Mai 2026, 5pm

**Rôl ddelfrydol os...**
- oes gennych ddiddordeb mewn cadwraeth ataliol a gofal casgliadau ac am gael profiad ymarferol yn y maes
- ydych yn hapus i weithio fel rhan o dîm
- ydych yn dda gyda'ch dwylo
- oes gennych beth profiad mewn trin a thrafod gwrthrychau amgueddfa neu gyflawni tasgau tebyg gyda gwrthrychau bregus â llaw
- ydych yn hapus i wisgo menig, mygydau llwch ac offer diogelwch personol wrth wirfoddoli.


**Dylech ystyried y canlynol**
- Byddwch chi'n gweithio yn uchel i fyny gan drin a thrafod offer a gwrthrychau bregus o'r casgliadau a bydd rhai o'r tasgau yn ailadroddus. Byddwn yn darparu asesiadau risg a hyfforddiant penodol i'r rôl.
- Nid yw sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon, ond mae'r goruchwylydd yn siaradwr Cymraeg ac yn hapus i siarad â chi yn Gymraeg.

**Oriau ac ymrwymiad:** pob Dydd Llun, 9.30am-3pm. Gofynnwn yn garedig i chi ymrwymo i 4 mis o leiaf. Rydym yn chwilio am 1 wirfoddolwr, felly os oes angen, bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweliad gyda'r goruchwyliwr rôl yn yr wythnos sy'n dechrau 15 Mehefin 2026.

**Diddordeb? Cwblhewch ein ffurflen gofrestru os gwelwch yn dda.**

**Cwestiynau:** gwirfoddoli@amgueddfacymru.ac.uk neu ffonio 029 2057 3002.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg, byddwn yn eich ateb yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at oedi.



Y buddion i'n girfoddolwyr:
- treuliau teithio;
- gostyngiad yn ein siopau, caffis, cyrsiau ac arddangosfeydd;
- geirda ar gais;
- nifer o ddigwyddiadau dathlu a mynediad tu ôl i'r llenni, a
- chyfle i gyfarfod pobl newydd.